**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JMEWL/1800/22

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddPlant@senedd.cymru

24 Mai 2022

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Ebrill am y gefnogaeth a'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i blant y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Codwyd nifer o gwestiynau, ac fe welwch fy atebion isod.

**Casglu data**

Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu unrhyw ddata sy'n gysylltiedig ag addysg mewn perthynas â phlant y Lluoedd Arfog. Er hynny, ymrwymodd y Gweinidog Addysg blaenorol yn ystod tymor y Senedd ddiwethaf i edrych ar y posibilrwydd o gasglu'r data hyn, ac un dull posibl oedd drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).

Os mai CYBLD fyddai'r dull a ddewisir, yna byddai rhaid gwneud newidiadau i'r Rheoliadau sy'n llywodraethu'r data y mae gan Lywodraeth Cymru hawl i'w casglu. Mae adrannau 537 a 537A o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi'r wybodaeth y mae rhaid i ysgolion ei darparu i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru. Y Rheoliadau presennol sy'n llywodraethu hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 a Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011.

Cychwynnwyd gwaith i gynnwys y newidiadau rheoleiddiol angenrheidiol yn rhaglen ddeddfwriaethol 2019. Fodd bynnag, o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a'r pandemig Covid-19, gohiriwyd ar y gwaith arfaethedig ar y rheoliadau sy'n llywodraethu casglu data. Rwyf i, a'm swyddogion, nawr yn ystyried y dulliau posibl a fyddai'n galluogi casglu'r data hyn. Byddaf yn rhoi diweddariad pellach wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Niferodd plant y Lluoedd Arfog**

Fel y nodwyd uchod, nid yw Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn casglu lefel y wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani. Nododd data diweddaraf y cyfrifiad (2011), fod teuluoedd y Lluoedd Arfog â phlant hyd at 16 oed ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae data cyfrifiad 2011 yn dangos bod o leiaf 2,486 o blant yng Nghymru lle nododd y HRP (person cyswllt y cartref) eu bod yn y Lluoedd Arfog. Nid yw hyn yn cynnwys gwybodaeth lle mae'r rhai nad ydynt yn HRP yn y Lluoedd Arfog, neu wybodaeth am gyn-filwyr neu Milwyr wrth Gefn, neu lle nad yw teuluoedd â phlant y Lluoedd Arfog yn byw yn yr un cyfeiriad. Bydd y data ar gyfer cyfrifiad 2021 ar gael yn ddiweddarach eleni.

Fel mesur dros dro, mae rhaglen Cynorthwyo Plant Milwyr y Lluoedd Arfog (SSCE) Cymru wedi bod yn cydweithio ag awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru i gasglu data ar nifer plant y Lluoedd Arfog yn ysgolion Cymru, ynghyd â'r Swyddogion Rhanbarthol Cyswllt Ysgolion (RSLO). Mae SSCE Cymru wedi nodi bod cyfanswm o 2,677 o blant y Lluoedd Arfog mewn 589 o ysgolion ledled Cymru ym mis Mawrth 2022. Mae data SSCE Cymru yn darparu niferoedd dysgwyr yn ôl awdurdod lleol.

**Ymgysylltu â Chronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog**

Mae Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n werth £10m y flwyddyn, yn cefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog drwy ddarparu rhaglenni ariannu sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymunedau'r Lluoedd Arfog ledled y Deyrnas Unedig. Cynrychiolir swyddogion o Lywodraeth Cymru ar Banel Ariannu Rhanbarthol Cymru. Ers ei sefydlu ym mis Mai 2015, mae Cymru wedi gwneud cais llwyddiannus am £6,060,078 o gyllid gan yr Ymddiriedolaeth, hyd yma.

**Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (RSLO)**

Sicrhaodd CLlLC, ar y cyd â 160fed Brigâd (Cymru), gyllid gan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog i benodi pedwar RSLO ar gyfer prosiect dwy flynedd a ddechreuodd ym mis Medi 2020.

Mae'r RSLO yn cydweithio â Rheolwr Rhaglen SSCE Cymru i ddarparu cymorth yn uniongyrchol i awdurdodau lleol ac ysgolion, gan ddarparu hyfforddiant, cyngor a chymorth. Mae eu rhaglen waith yn amhrisiadwy ac mae'n cynnwys:

*Ymweliadau Ysgolion*

Ymweliadau ysgol strwythuredig sy'n cynnwys cymorth i wneud y canlynol:

- gweithio tuag at gael statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog;
- defnyddio pecyn gwaith ac adnoddau SSCE Cymru;
- grwpiau trafod plant y lluoedd arfog;
- ymgysylltu â'r Lluoedd Arfog;
- cael mynediad at gyllid.

*Hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus*

Sesiynau hyfforddi dwy awr, a gyflwynir yn rhithwir ar gyfer ysgolion. Hyd yma, mae swyddogion RSLO wedi cyflwyno sesiynau DPP i 169 o gyfranogwyr o 74 o ysgolion.

*Cynlluniau a phrofiadau ar gyfer plant y Lluoedd Arfog*

- **Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru** – lansiwyd ym mis Ebrill 2022, rhoddir y wobr hon i ysgolion sydd yn:
  - ymgorffori arfer dda ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog;
  - creu amgylchedd cadarnhaol i blant y Lluoedd Arfog rannu eu profiadau;
  - annog ysgolion i ymgysylltu mwy â'u cymuned Lluoedd Arfog.

- **Mis y Plentyn Milwrol (Ebrill)** – yn cefnogi ysgolion i dynnu sylw at y rôl bwysig y mae plant y Lluoedd Arfog yn ei chwarae yng nghymuned y Lluoedd Arfog. .

- **Gweithdy rhithiol Little Troopers -** yn rhoi cyfle i blant y lluoedd arfog ddod at ei gilydd gydag eraill. Drwy gyfres o weithgareddau, byddant yn archwilio rhai o'r heriau unigryw y maent yn eu hwynebu fel aelodau o gymuned Lluoedd Arfog Prydain ac i ddathlu'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn 'Little Trooper'.

- **Rygbi rhyngwladol yr Hydref 2022: Cymru v Fiji** – Mewn partneriaeth ag Undeb Rygbi Cymru, ar Sul y Cofio, rhoddodd yr RSLO docynnau i naw teulu o'r Lluoedd Arfog o bob cwr o Gymru i gêm rygbi Cymru v Fiji yng Nghaerdydd.

- **Profiad preswyl i blant y lluoedd arfog** – Bu 15 o blant y Lluoedd Arfog o ranbarth y dwyrain mewn profiad preswyl yn llawn gweithgareddau iechyd a lles a gynhaliwyd ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia dros dri diwrnod, a oedd yn cael ei gynnal gan Forces Fitness a SSCE Cymru.

Sicrhawyd cyllid i ymestyn y prosiect RSLO hyd at fis Mawrth 2023 drwy gronfa Cymorth Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn. Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto ar sicrhau cyllid ar ôl mis Mawrth 2023.

**Barn ar waith SSCE Cymru**

Mae rhaglen SSCE Cymru yn rhoi cymorth amhrisiadwy i blant y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn rhoi cymorth cyffredinol i bawb sy'n ymwneud ag addysg plant y Lluoedd Arfog, ac yn darparu adnoddau, cyngor a chymorth i ysgolion, awdurdodau lleol a theuluoedd. Mae gweithgareddau SSCE Cymru yn cynnwys:

- cydlynu gwaith y swyddogion RSLO a Swyddog Arweiniol Cyfranogiad SSCE Cymru;
- cynhyrchu a chynnal adnoddau ar ei wefan gan gynnwys offer i gefnogi ysgolion, awdurdodau lleol a theuluoedd y Lluoedd Arfog;
- cynnal rhwydweithiau o randdeiliaid allweddol a mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd cenedlaethol i sicrhau bod Cymru'n cymryd rhan mewn ymchwil a chyfleoedd eraill i ledaenu dealltwriaeth o anghenion a phrofiad plant y

Lluoedd Arfog. Mae hyn yn darparu cysylltiad hanfodol rhwng sefydliadau'r DU a Chymru;

- cydlynu'r gwaith o ddosbarthu £200,000 o gyllid wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ac ysgolion i gefnogi plant yn lleol yn uniongyrchol.

I gydnabod pwysigrwydd y rhaglen hon, rwyf wedi cytuno bod cyllid o £270,000 gan Lywodraeth Cymru yn cael ei sicrhau unwaith eto ar gyfer 2022-23 i gefnogi plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Wrth symud ymlaen, cytunwyd hefyd ar gyllideb ddangosol o £270,000 ar gyfer 2023-24 a 2024-25.

**Estyn y Grant Datblygu Disgyblion – Premiwm Disgyblion y Lluoedd Arfog**

Mae hawl gan bob dysgwyr, gan gynnwys plant y Lluoedd Arfog, i gael cymorth drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf. Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno Premiwm Disgyblion y Lluoedd Arfog, fel sy'n digwydd yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y ddarpariaeth yma yng Nghymru yn wahanol i weddill y Deyrnas Unedig. Mae'r ffordd yr ydym yn cefnogi plant y Lluoedd Arfog yn cael ei deilwra drwy gysylltiadau uniongyrchol rhwng SSCE Cymru, y Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol, ac ein awdurdodau lleol, ysgolion a'r plant a'r bobl ifanc ei hunain.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language